

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER.

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING: 07.02.20

CENADAETHAU TYMHOROL – TERMLY MISSIONS.

Mewn cyfarfod o un o is bwyllgorau'r Corff Llywodraethol, gofynwyd i mi rannu rhestr o'r Cenadaethau ysgol gyfan y seilir gwobr Tystysgrif y Pennaeth arnynt yn ystod y tymor hwn. Mae'r disgyblion yn ymwybodol ohonynt hefyd ac isod, ceir rhestr o'r rhai gaiff eu gwobrwyo y tymor hwn:

In a meeting of one of the Governing Body's subcommittee, I was asked to share a list of the whole school's Missions which form the basis of the Headteacher's Award during this term. The pupils are aware of these, and below is a list of those which are being awarded for this term:

Peidio gadael neb allan yn fwriadol. – *Not to leave anyone out on purpose.*

Ymdrech arbennig o dda. – *An extremely good effort.*

Rhannu ag eraill. – *Sharing with others.*

Dangos parch at yr ysgol a phawb a phopeth sydd ynddi. – *Showing respect to the school and everyone and everything in it.*

Bod yn amyneddgar. – *Being patient.*

Cofio dweud diolch. – *Remembering to say thank you.*

SPORTS FOR CHAMPIONS.

Cafwyd diwrnod hynod o lwyddiannus yma heddiw pan ddaeth Daniel Purvis, y gymnast enwog, i gynnal sesiynau o ffitrwydd gyda'r holl ddisgyblion. Roedd pawb wrth eu bodd yn cael cyfle i gymryd rhan gydag un o enwogion y byd chwaraeon. Diolch i bawb am eu harian nawdd hael, ac fel bob amser, mae eich haelioni wedi bod yn arbennig iawn. Ar ôl talu'r costau, bydd 60% o'r cyfanswm, sef £1,751 yn cael ei gyfrannu i'r ysgol.

We had an extremely successful day here today when Daniel Purvis, the famous gymnast, came to conduct fitness sessions with all the school's pupils. Everyone very much enjoyed the opportunity of taking part with a famous sports personality. Many thanks to everyone for their generous sponsor money, and as always, your generosity has been exceptional. After paying out the costs, 60% of the money raised, which is £1,751 will be contributed to the school.

WYTHNOS IECHYD MEDDWL PLANT – CHILDREN'S MENTAL HEALTH WEEK.

Roedd y weithgaredd uchod yn ddiweddglo addas iawn i'r wythnos arbennig hon pan gyflwynwyd gwahanol weithgareddau'n seiliedig ar hynny yn y dosbarthiadau.

Mae'n siwr bod y plant wedi dweud wrthyh eu bod i gyd yn mynd allan, yn eu tro fesul dosbarth, i redeg o gwmpas buarth yr ysgol yn ddyddiol.

The above activity was a fitting end to the week, when various activities based on this theme were presented in the classes.

The children have probably told you that they all go out, in turn in their classes, to run around the school yard.

FITBIT

Daeth i'n sylw fod yna ddisgyblion sy'n dod â theclynnau fitbit drudfawr, sy'n abl i wneud gwahanol brosesau, efo nhw i'r ysgol. Gofynnir iddynt beidio a gwneud hyn os gwelwch yn dda, ond gallant ddod â rhai syml sy'n cyfrif camau a gyflawnir yn ystod y sesiynau rhedeg **yn unig** os gwelwch yn dda.

*It has been brought to our attention that some pupils bring expensive fitbits, which are able to fulfil complex procedures, with them to school. They are asked not to do this please, but can bring simpler devices which can, for example, count the steps whilst they participate in the running sessions **only** please.*

TWRNAMENT BÊL RUYD Y GYNGHRAIR – LEAGUE NETBALL TOURNAMENT.

Bu tîm yr ysgol yn cymryd rhan yn y Gynghair leol ar ddiwedd y dydd ddoe, a gwneud eu rhan yn arbennig o dda. Ar ddiwedd y cystadlu, roedd ein tîm yn ail yn y gystadleuaeth – llongyfarchiadau calonnog i'r aelodau ar eu llwyddiant.

The school's team participated in the local league at the end of the day yesterday, and did so extremely well. At the end of the competition, our team was second overall – many congratulations to the members on their success.

DATHLU DIWRNOD MIWSIG CYMRU – CELEBRATE WELSH MUSIC DAY.

Oherwydd bod digwyddiad y Sports for Champions wedi cymryd lle heddiw ar Ddiwrnod Miwsig Cymru, byddwn ni, yma yn Ysgol Glanrafon, yn dathlu'r diwrnod **ddydd Gwener nesaf, Chwefror 14eg.** Caiff y plant ddod i'r ysgol wedi'u gwisgo fel eu hoff ganwr neu gantores, a bydd gwahanol weithgareddau'n digwydd yn y dosbarthiadau, yn seiliedig ar y diwrnod.

*As the Sports for Champions event was taking place today, on the Welsh Music Day, we, at Ysgol Glanrafon, will be celebrating the day **next Friday, February 14th.** The children can come to school dressed up as their favourite singer, and activities will take place in the classes during the day.*

HOLIADUR Y TEITHIO – TRAVEL QUESTIONNAIRE.

Deallaf bod nifer dda ohonoch eisoes wedi llenwi'r holiadur hwn. Cofiwch os nad ydych eisoes wedi gwneud mai'r dyddiad cau ar gyfer ei gwblhau yw **dydd Gwener nesaf, Chwefror 14eg.**

*I understand that a good number of you have already filled in the questionnaire. If you have not already done so, the closing date for doing so is **next Friday, February 14th**.*

MEITHRIN – NURSERY 2020-2021.

Os oes gennych blant bach sydd yn 3 oed cyn Awst 31ain., a'ch bod yn awyddus iddo ef/hi gael mynediad i Ysgol Glanrafon, rhaid eu cofrestru ar wefan Cyngor Sir y Fflint erbyn **dydd Gwener, Chwefror 21ain.os gwelwch yn dda.**

*If you have a child who is 3 years of age by August 31st., and that you wish for him/her to attend Ysgol Glanrafon, the children must be registered on the Flintshire website by **Friday, February 21st. please.***

PARCIO – PARKING.

Yn anffodus, mae wedi dod i'n sylw unwaith eto fod yna rieni/gwarchodwyr sydd yn parcio'n beryglus, gan gynnwys ar y palmant a'r llinellau zig zag, wrth ddod â'u plant i'r ysgol yn y bore, a'u casglu ar ddiwedd y dydd. Er diogelwch i bawb sy'n defnyddio Lôn Bryn Coch, RHAID i hyn ddod i ben, a dylai pawb roi ystyriaeth i bob un sy'n ei defnyddio.

*Unfortunately, it has come to our attention once again that there are parents/guardians who park dangerously when bringing their children to school and collecting them at the end of the day, including parking on the pavement and zig zag lines. For the safety of everyone who use Bryn Coch Lane, this **MUST** come to an end, and everyone should consider all those who use the road.*

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – NEXT WEEK'S EVENTS.

- 10.02.20** P.C. Marc Jones – Sgwrs i ddisgyblion Blwyddyn 2(Pobl sy'n ein helpu) a 4 (Diogelwch y Rhyngwrwd) – *Termly talk for Year 2 (People who help us) and Year 4 (Internet safety) pupils.*
- 11.02.20** P.C. Marc Jones – Sgwrs i ddisgyblion Blwyddyn 6 (Bwlio Cyber Bullying) – *Termly talk for Year 6 pupils.*
- 12.02.10** Pwyllgor Ffrindiau Glanrafon – *Friends of Glanrafon committee* – **4.30 p.m.**
- 14.02.20** Dathlu Diwrnod Miwsig Cymru – *Celebrate Welsh Music Day.*
- 14.02.20** Dyddiad cau yr Holiadur Teithio – *Closing date for the Travel Questionnaire.*
- 14.02.20** Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.*
- 24.02.20** **Diwrnod Hyfforddiant mewn swydd - dim ysgol i'r disgyblion – In service training day – no school for the pupils.**
- 25.02.20** Ysgol yn ail agor wedi'r gwyliau hanner tymor – *School re-opens following the half term holiday.*

BWYDLEN YR WYTHNOS – WYTHNOS 1